



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742
Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Chwefror 28ain, 2013

Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,
Gwenllian Thomas,
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,
Erin Davies, Llŷr Eirug,
Dylan James-Williams, Elen Llywelyn Evans,
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

Absennol

Dylan Skym

Agenda

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol.

2. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Trafodwyd y canlynol:

- **Cyflwr toiledau'r merched** - unwaith eto mynegodd rhai o'r merched bryder ynglŷn â chyflwr toiledau'r merched, gan nad yw pawb sy'n eu defnyddio yn eu parchu nac yn gwneud defnydd cywir ohonynt (mae llawer o ferched yn aros mewn amser chwarae er mwyn 'chwarae o gwmpas' yn y toiledau.) Penderfynwyd trafod gyda Mr Williams a fyddai hi'n syniad da i aelodau o staff neu aelodau hŷn y Cyngor Ysgol sefyll wrth fynedfa'r toiledau wrth Fl.3 yn ystod amser chwarae er mwyn sicrhau nad yw hyn yn medru digwydd.

- **Llyfrau darllen** – dywedodd Robert y byddai'n hoffi gweld mwy o amrywiaeth o lyfrau darllen Cymraeg a Saesneg yng nghorneli darllen Bl.6, a chytunodd aelodau eraill y Cyngor Ysgol fod hyn yn wir am eu dosbarthiadau nhw hefyd. Trafodwyd amrywiol syniadau er mwyn ceisio codi arian i brynu mwy o lyfrau darllen i'r dosbarthiadau, a dywedwyd efallai y byddai modd i ni weithio gyda'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon er mwyn codi arian.

3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau – roedd un awgrym yno y mis hwn, sef fod angen mwy o gêmâu yn y dosbarthiadau ar gyfer amser chwarae gwlyb. Eto, byddai angen codi arian er mwyn medru gwneud hyn.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Mawrth 15fed 2013

Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).